

## **Eisteddfod Penrhyn-coch 2018**

### **Cystadleuaeth y Gadair: Y Bae**

Saith bardd a fentrodd i gystadleuaeth y Gadair eleni ac mae'r safon yn uchel. Cerdd ar y testun 'Ar ôl y Storm' a gafwyd gan TWM Y GWAS. Mae'n dechrau'n dda - 'Ddoe roedd tonnau mawr yn taro'n greulon / Heddiw mae tonnau bach yn chwarae yn y bae.' ac mae darnau da eraill yn darlunio'r traeth wedi codi dros y prom yn Aberystwyth - 'Heddiw mae'r prom fel anialwch dros y Sahara.' Neges y gerdd, mae'n debyg yw'r gwahaniaeth rhwng y storm a'r osteg a'r cyferbyniad rhyngddynt. Yn anffodus mae'r mynegiant yn troi ychydig yn lletchwith tua'r diwedd fel bod y neges yn cael ei cholli ac mae angen tipyn mwy o ofal drwyddi draw o ran cywirdeb.

Cerdd mewn mydr ac odl a gafwyd gan MERCH Y MYNYDD. Portread o'r Bae ar fachlud haul sydd yma, ac o'r drudwy yn hedfan uwch y prom. Naws delynegol sydd yn cael ei chreu o'r pennill cyntaf, ac mae ambell bennill yn taro deuddeg, er enghraifft 'Wrth gynnal oedfa'r nos mewn hwyl / Gofynnodd y gwylanod, / Pwy wnaeth ei wisg o felfed coch? / Be welsoch fath ryfeddod?' Mae glynu at y mesur a'r mydr ac odl yn creu straen weithiau fodd bynnag, er enghraifft 'Pan yna beintiau'r dŵr mewn chweil' ac 'wrth daenu'i hud gusanau'. Cerdd ddigon llwyddiannus serch hynny.

Cerdd am Aberfan, yn benodol am Cantata Memoria Mererid Hopwood a Karl Jenkins sydd gan CANTORES. Mae'n effeithiol iawn drwyddi, ond ychydig yn anwastad. Mae llinellau cryf sy'n canu yn dilyn llinellau gwannach. Er enghraifft - 'Her bu Cantata Memoria Aberfan / I'w chyflwyno a gwefr a thosturi. / Canolfan y Mileniwm oedd y llwyfan, / A llenwi'r bae a llif y dagrau lu.' Mae cynnal odl yn un rhan o'r gerdd yn creu straen ac eto mae ôl brys mewn camgymeriadau sillafu a gramadeg. Gydag ychydig o waith, fodd bynnag, byddai hon yn gerdd lwyddiannus.

Mae PANTYFFYNNON wedi cyflwyno cerdd mewn dwy ran - y cyntaf yn darlunio Bae Ceredigion delfrydol lle cawn 'chwerthin / ar ben ein gilydd / yn ein gwisgoedd / glan môr.' a'r ail yn darlunio Bae Guantanamo lle mae'r 'taran y tonnau / yn curo'r traeth yn ddi-drugaredd.' 'Yno, mewn gwisgoedd / glan môr y machlud / disgwylant am y wawr.' Syniad gwreiddiol wedi ei fynegi yn gelfydd.

Mae'r dair cerdd sydd ar y brig yn codi i dir uwch. Cafwyd awdl i Fae Caerdydd, ac ymweliad yr Eisteddfod yn 2018 gan DOCTOR PWY, ac mae'n amlwg fod y Doctor yn gynganeddwr medrus. Mae'r darn cywydd yn arbennig o effeithiol. Llwydda i gyfleu cyffro'r Eisteddfod ym mhob rhan o'r Bae ('I ganu'n Las Iguanas' a 'Bariau'r Dock fydd yn rocio'). Mae ôl straen fan hyn a fan draw fodd bynnag a byddai'n dda ymarfer ysgrifennu cywyddau neu ddarnau eraill byrion cyn mentro ar awdl. Mewn awdl, mae angen dewis y mesurau gwahanol at bwrpas ac hefyd mae angen peidio bodloni ar y trawiad cyntaf a ddaw mewn llinell. Fodd bynnag, does dim amheuaeth bod dawn gyffrous gan DOCTOR PWY. Sgwn i pwy yw e neu hi?

Mae cerdd EITHINDIR yn uchelgeisiol. Cerdd yn darlunio arfordir Ceredigion a'r dyffrynnoedd sydd yn arwain ato: 'Rhwng dau fryn mae afon / a'i mympwyon, ei llif a'i chil, / yn mesur drycin a hinon.' Dyna arddull y gerdd drwyddi draw. Mae'n bortread teimladwy a synhwyrus o'r ardal. Mae neges y bardd ychydig yn anghyffwrdd, mewn ffordd dda, ond

mae'n debyg mai ymateb bardd i arfordir sy'n 'briwsioni' a'r 'tir yn llosgi' sydd yma. Mae yma drawiadau a llinellau trawiadol dros ben ac mae'r cyfan yn creu awyrgylch anghyfforddus ond hudolus. Mae'r dweud ychydig yn or-gymhleth weithiau, dwi'n teimlo, yn enwedig tua'r diwedd, ond mae hi'n gerdd ardderchog.

Mae'r gerdd sy'n dod i'r brig yn gerdd rydd er cof am y sielydd ac arweinydd Geraint John, wedi ei hysgrifennu, mae'n ymddangos gan un o'i ddisgyblion. Mae'r bardd yn agor gyda darlun cynnil o gaffi Canolfan y Celfyddydau ac mae'r ddelwedd gerddorol sy'n cael ei gosod gyda'r darn gwych 'percysiwn y barista' yn cael ei chynnal trwy'r gerdd. Mae'r ail bennill yn wych hefyd. Mae'r drudwy yn troi yn nodau - 'O dan ofal dy adain a'th wên, esgynnais mewn cerddorfa o ddrudwy...' Dyma'r bardd sydd yn gwbl sicr o'r hyn y mae am ddweud ac yn hyderus yn ei lais, neu ei llais. Mae'n deyrnged ddidwyll a theimladwy a phleser mawr yw ei dyfarnu yn deilwng o'r Gadair eleni.